# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 28AIN MAWRTH 2018 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P.A.Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau), R. Hartshorn (Pennaeth Polisi a Diogelwch y Cyhoedd), P. Lewis (Pennaeth TG Dros Dro ac Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth), L. Donovan (Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), T. Stephens (Rheolwr Rheoli Datblygu), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), J. Reynolds (Rheolwr Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden) J. Jones (Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn Bresennol:

D. Harteveld – Rheolwr Gyfarwyddwr - Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA)

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan N. Scammell (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Adran 151 Dros Dro)

### 2. PROFEDIGAETH – HARRY ANDREWS MBE

Safodd Aelodau a Swyddogion am funud o dawelwch fel arwydd o barch gan fod cyn-Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Harry Andrews, wedi marw ddydd Mawrth 27ain Mawrth 2018 yn 80 oed.

## 3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ar ddechrau'r cyfarfod, datganodd y Cynghorydd C. Gordon ddiddordeb mewn perthynas ag eitem agenda 5 - Canolfan Hamdden Pontllan-fraith - Ystyriaeth o'r Galwad i Mewn, yng nghyd-destun yr Adolygiad Hamdden. Datganodd y Cynghorwyr L. Phipps a C. J. Cuss ddiddordebau mewn perthynas ag eitem agenda 6 - Cynllun Busnes Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg (EAS) 2018-2021. Datganodd y Cynghorwyr C. Gordon a Mrs B.A. Jones ddiddordebau mewn perthynas ag eitem agenda 9 - Cronfa Deddf Eglwys Cymru. Yn ystod y cyfarfod, datganodd y Cynghorwyr P. Marsden a L. Phipps ddiddordebau mewn perthynas ag eitem agenda 11 - Gwaith Mwynau ac Adfer Tomenni Bedwas a Gynigiwyd. Mae manylion ohonynt yn cael eu cofnodi gyda'r eitemau perthnasol.

## 4. COFNODION Y CABINET - 14EG MAWRTH 2018

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 14eg Mawrth 2018.

## MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 5. COMISIYNU INTEGREDIG A CHYTUNDEB ADRAN 33 AR GYFER CARTREFI GOFAL I BOBL HYN YN RHANBARTH GWENT (CRONFEYDD CYFUN)

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar ddatblygiad trefniadau i gronni arian ar gyfer trefniadau cartrefi gofal. Sefydlu cyllideb gyfun rhanbarthol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau llety cartrefi gofal (yn yr achos hwn cartrefi gofal i bobl hyn) rhwng Cyngor Sir Caerffili ac Awdurdodau Lleol Gwent eraill (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB).

Cynghorwyd y Cabinet y bydd sefydlu cytundeb partneriaeth, a elwir yn Gytundeb Adran 33, yn galluogi comisiynu integredig a chronfeydd cyfun mewn perthynas ag arfer swyddogaethau llety cartrefi gofal. Mae hwn yn ofyniad Statudol ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol o fewn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) (SSWBA) sy'n dod i rym o fis Ebrill 2018. Mae partneriaeth a chydweithio yn elfen arwyddocaol o fewn Rhan 9 o'r Ddeddf lle nodir dyletswyddau a disgwyliadau o ran gweithio mewn partneriaeth. Sefydlir y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (BPR) ar sail statudol ac mae'n cynnwys ABUHB, 5 Awdurdodau Lleol, 2 Sefydliad Gwasanaeth Gwirfoddol Sirol a chynrychiolwyr y Panel Dinasyddion rhanbarthol a Fforwm Darparwyr.

Esboniwyd bod cwmpas y cytundeb a'r egwyddorion dylunio wedi'u halinio i'r blaenoriaethau drafft ar gyfer pobl hŷn yn Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r cynllun ardal drafft (a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Cyngor llawn). Mae Cytundeb Adran 33 yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu 'rheolwr cronfa gyfunol' a chadarnhawyd ei fod yn cael ei ystyried ar hyn o bryd pa un o'r chwe phartner fydd yn cymryd y rôl hon. Nododd y Cabinet na fydd y gronfa yn rhannu risg ariannol nac yn cyflwyno croes-gymhorthdal posibl rhwng y partneriaid. Bydd angen cymeradwyaeth pellach gan bob parti i'r cytundeb ar gyfer unrhyw newidiadau i'r dull hwn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol am gyflwyno'r adroddiad ac am faint o waith y mae wedi'i gyflawni gydag Awdurdodau eraill wrth weithio tuag at y cytundeb hwn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) y trefniadau cyllideb cyfun ar gyfer swyddogaethau llety Cartrefi Gofal i'w goruchwylio gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (BPR) ac, yn arbennig, ni fydd y gronfa'n rhannu risg ariannol nac yn cyflwyno unrhyw groes-gymhorthdal posibl rhwng y partneriaid ;

(ii) bydd angen cymeradwyaeth pellach gan yr holl bartneriaid a chytundeb pellach gan y Cabinet ar gyfer unrhyw newidiadau i'r dull hwn, yn cael eu cymeradwyo;

(iii) rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles, fel Aelod Cyngor Sir Caerffili o'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, wrth arfer y swyddogaethau hynny, ac ystyried unrhyw drefniadau penodol sydd angen cael eu rhoi ar waith i fodloni dyletswyddau statudol ar lefel leol a rhanbarthol, yn cael eu cymeradwyo;

(iv) yr elfennau allweddol gofynnol ar gyfer y trefniadau hyn drwy ddatblygu Cytundeb Partneriaeth ffurfiol, e.e. cytundeb Adran 33, yn cael eu cadarnhau;

(v) goblygiadau adnoddau i'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r trefniadau cyllideb cyfun a goruchwylio'r cytundebau cyllideb cyfun gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, yn cael eu cadarnhau;

(vi) Prif Gyfreithiwr y Cyngor i ddiwygio Cyfansoddiad y Cynghorau i weithredu'r ddirprwyaeth yn 10.3, yn cael ei gytuno.

## 6. CANOLFAN HAMDDEN PONTLLAN-FRAITH - YSTYRIED Y SESIWN GALW I MEWN YNG NGHYD-DESTUN YR ADOLYGIAD HAMDDEN

Datganodd y Cynghorydd C. Gordon ddiddordeb rhagfarnol mewn perthynas â'r eitem hon gan ei fod yn Aelod ward a hefyd yn ddefnyddiwr y gwasanaeth. Gadawodd yr ystafell gyfarfod ac ni chymerodd ran yn y ddadl.

Gwnaeth yr adroddiad ddiweddaru'r Cabinet ar ganlyniad ymgynghoriad ychwanegol a wnaed mewn perthynas â chau posib Canolfan Hamdden Pontllan-fraith ac i ganfod a oedd y Cabinet yn dymuno ailddatgan ei benderfyniad gwreiddiol neu newid ei benderfyniad yn seiliedig ar ymgynghoriad ychwanegol. Ar 13eg Rhagfyr 2017, ystyriodd y Cabinet adroddiad ar ddyfodol Canolfan Hamdden Pontllan-fraith a chytunodd ar nifer o benderfyniadau gan gynnwys cau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith. Roedd penderfyniad y Cabinet yn destun sesiwn galw i mewn a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 18fed Ionawr 2018, lle penderfynwyd cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach.

Cyfeiriwyd y Cabinet at baragraff 4.8 yn yr adroddiad lle nodir elfennau'r ymgynghoriad gwreiddiol, a chaiff eu dadansoddiad ei gyflwyno yn Atodiad 1 (ynghlwm wrth yr adroddiad). Cyfeiriwyd hefyd at yr ymatebion a dderbyniwyd gan Gomisiynydd Cymru. Dywedodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant nad oedd yn gallu ymateb i ymgynghoriadau mewn perthynas â chyllid lleol gan y gallai ymyriadau o'r fath niweidio Statws Annibynnol y Comisiynydd. Dywedodd Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol nad oes ganddynt swyddogaeth gwaith achos i roi cymorth i achosion unigol, ond dywedodd wrth y Cyngor i gymhwyso'r 'Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'. Mae hyn yn cynnwys y pum ffordd o weithio: ystyried y tymor hir, helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, cymryd ymagwedd integredig a chydweithredol, ac ystyried a chynnwys ystod amrywiol o bobl. Ni dderbyniwyd ymateb gan y Comisiynydd Pobl Hŷn.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ychwanegol gyda'r Fforwm Ieuenctid (yr ail gyfle) i roi sylwadau ar y posibilrwydd o gau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith. Derbyniwyd 28 o ymatebion lle'r oedd gweithwyr ieuenctid wedi mynychu cyfarfodydd ar draws y Fwrdeistref, a nodwyd eu manylion yn atodiad 3 (ynghlwm wrth yr adroddiad).

Yn ychwanegol, dywedwyd wrth y Cabinet, ar 29ain Ionawr 2018, y derbyniwyd llythyr gan Chris Evans AS ynghyd ag 84 o ymatebion i'r arolwg. Yn anffodus, nid oedd yr un o'r ymatebion yn cynnwys cyfeiriadau na manylion o gysylltiad yr unigolyn â'r Ganolfan Hamdden. Ar 15fed Chwefror 2018, derbyniodd y Cyngor hysbysiad ffurfiol o lansio Adolygiad Barnwrol mewn perthynas â Phenderfyniad y Cabinet a wnaed ar 13eg Rhagfyr 2017. Ar hyn o bryd, mae'r Adran Gyfreithiol yn ystyried sail y llythyr a dderbyniwyd gan Gyfreithiwr yr Hawlydd.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r atebolrwydd Ardreth Annomestig Genedlaethol mewn perthynas â'r Ysgol, gan mai £17,000 yw'r costau blynyddol disgwyliedig ar gyfer y Ganolfan Hamdden. Cadarnhaodd y Swyddogion mai £1 yw'r Ardreth Annomestig Genedlaethol am weddill y flwyddyn. Eglurwyd pe bai'r Ganolfan Hamdden yn cau, ni fyddai'r Gymuned yn colli gwasanaethau. Mae yna gyfleusterau eraill ar gael a byddai'r defnydd yn cael ei ledaenu dros Ysgol Gyfun Coed Duon ac Ysgol Uwch Islwyn a chanolfannau hamdden eraill yn yr ardal. O ran y cynaladwyedd hirdymor, cynghorwyd y Cabinet nad yw'r ystâd hamdden ar draws yr Awdurdod cyfan yn gynaliadwy oherwydd y toriadau yn y refeniw sydd ar gael i'r Awdurdod Lleol. Mae sicrhau darpariaeth gwasanaethau chwaraeon a hamdden yn awr ac yn y dyfodol yn mynnu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd sy'n cydbwyso ystyriaethau tymor byr yn erbyn cynaladwyedd hirdymor. Mae'r hinsawdd ariannol yn golygu nad yw'n bosibl parhau i roi cymhorthdal i bob safle ac felly mae'n rhaid cymryd penderfyniadau nawr i sicrhau gwasanaeth chwaraeon a hamdden ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd Strategaeth Chwaraeon a Hamdden deng mlynedd yn dod yn ôl i'r Cabinet yn nes ymlaen yn 2018 a fydd yn golygu 'cael mwy o bobl, yn fwy egnïol'.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog a'r argymhellion a nodir isod ym mharagraff 10.1 (iii) a (iv) a 10.2: -

(i) y penderfyniad i ohirio (i gau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith) a gymerwyd ar 13eg Rhagfyr 2017 ac ystyried dyfodol Canolfan Hamdden Pontllan-fraith yn nes ymlaen yn 2018 unwaith y bydd Strategaeth Chwaraeon a Hamdden 10 mlynedd yr Awdurdod wedi'i mabwysiadu, yn cael ei gefnogi;

(ii) Swyddogion i ysgrifennu at Gyngor Tref Coed Duon yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Craffu; yn cael ei gefnogi

ac

ARGYMHELLWYD i'r Cyngor: -

(i) yr arbedion gohiriedig sy'n gyfanswm o £136 mil fel y manylir ym mharagraff 7.8 yr adroddiad, sef cefnogaeth iaith mewn Ysgolion Cynradd (swyddi gwag) - £66 mil a gostyngiad rhannol yn yr arbedion arfaethedig ar gynnal priffyrdd i'w lleihau o £212 mil i £142 mil yn cael ei adfer hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol ar ddyfodol y Ganolfan.

## 7. CYNLLUN BUSNES GWASANAETH CYFLAWNI ADDYSG (GCA) 2018-2021

Datganodd y Cynghorwyr L. Phipps a C. J. Cuss ddiddordebau personol mewn perthynas â'r eitem hon am eu bod ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

Gwnaeth yr adroddiad ddiweddaru'r Cabinet ar Gynllun Busnes Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) 2018-2021 ac Atodiad benodol Caerffili (Ebrill 1af 2018 - Mawrth 31ain 2019). Mae'n ofynnol i GCA gyflwyno eu Cynllun Busnes i Lywodraeth Cymru yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet. Amlinellodd yr adroddiad Gynllun Busnes GCA De Ddwyrain Cymru 2017-2020. Mae'r cynllun yn nodi'r blaenoriaethau, y rhaglenni a'r canlyniadau i'w cyflawni gan yr GCA ar ran Consortiwm De Ddwyrain Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn canolbwyntio ar ganlyniadau disgwyliedig yng Nghaerffili a'r holl raglenni penodol a fydd yn cael eu gweithredu yn ystod 2017-2018, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad yr Awdurdod Lleol (ALl).

Cynghorwyd y Cabinet bod ffocws cynyddol yn y cynllun, gan fod y mater hwn wedi cael ei godi 12 mis yn ôl. Cytunwyd ar rai mân newidiadau gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu ac nid oedd unrhyw newidiadau i'r Atodiad. Mae'r model cyflwyno ar gyfer y Cynllun Busnes yn rhanbarthol, caiff anghenion pob ysgol a thueddiadau yng Nghaerffili eu cwrdd â gwaith pwrpasol gyda phob ysgol. Mae'r GCA yn cynnig ystod eang o gymorth pwrpasol sy'n seiliedig ar arfer gorau ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cadarn a chryf.

Eglurwyd bod pryderon wedi'u codi'n flaenorol o ran Cyfnodau Allweddol 2 a 3, ac mae'r rhagolygon ar gyfer 2019/20 ar ffurf Ddrafft ar hyn o bryd. Gofynnodd y Cabinet y dylid cyflwyno adroddiad pellach ddiwedd mis Gorffennaf 2018, gyda'r rhagamcanion disgwyliedig yn hyn o beth.

Mae'r GCA wedi ymrwymo i gynnig arbedion effeithlonrwydd o 2% ar gyfraniad cyllido craidd y llynedd ar gyfer 2018/19 ac effeithlonrwydd dangosol o 2% ar gyfer y 2 flynedd ariannol nesaf. Mae'r arbedion hyn wedi'u hystyried yn ofalus yn yr hinsawdd ariannol heriol ar gyfer y GCA a Chynghorau. Mae'n debygol y bydd angen i'r GCA weithredu rhaglen rheoli newid i alluogi gosod cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD yn amodol ar argymhelliad ychwanegol a bod y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yn cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet ar ddiwedd mis Gorffennaf 2018 mewn perthynas ag ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3, ac am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog: -
>
> (i) mae'r blaenoriaethau a gynhwysir o fewn y Cynllun Busnes a'i Atodiad ac effaith y cynllun ar Gymunedau o fewn ardal yr Awdurdod Lleol, yn cael eu nodi;
>
> (ii) cymeradwyo Cynllun Busnes EAS cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru;
>
> (iii) y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) i gyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet ar ddiwedd mis Gorffennaf 2018 mewn perthynas ag amcanestyniadau yn y Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yn y dyfodol, yn cael ei gytuno.

## 8. CYHOEDDI DATA AM Y BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU - RHEOLIADAU DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 (DYLETSWYDDAU PENODOL AC AWDURDODAU CYHOEDDUS) 2017

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi Datganiad ysgrifenedig yr Awdurdod am y Blwch Cyflog rhwng y Rhywiau. O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017, mae'n ofynnol i bob sefydliad a restrir yn Atodlen 2 i'r rheoliadau sy'n cyflogi dros 250 o weithwyr adrodd yn flynyddol ar eu Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau o 2017.

Cynghorwyd y Cabinet bod y darpariaethau o dan y Rheoliadau hyn yn berthnasol yn unig i gyflogeion a benodir ac a reolir yn uniongyrchol gan y Cyngor. Felly, nid oes angen cynnwys gweithwyr sy'n cael eu penodi a'u rheoli gan Benaethiaid ysgol/Cyrff Llywodraethu o fewn cwmpas Data y Cyngor am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa deddfwriaeth cyflogaeth unigryw lle mae pob gweithiwr ysgol yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol, ond mae Penaethiaid / Cyrff Llywodraethu'n cyflawni penderfyniadau ynghylch penodi a rheoli gweithwyr o'r fath yn bennaf, fel sy'n briodol. Ni fydd yn ofynnol i Ysgolion Caerffili gyhoeddi ac adrodd ar eu ffigurau penodol eu hunain gan nad oes Ysgol sy'n cyflogi mwy na 250 o staff.

Eglurwyd bod angen cyhoeddi data'r Cyngor am y Blwch Cyflog rhwng y Rhywiau ar wefan y Cyngor a gwefan y Llywodraeth erbyn 30ain Mawrth bob blwyddyn. Rhaid i'r data gynnwys y tâl fesul awr, fel ffigwr cymedrig (yn nodi'r gwahaniaeth rhwng cyfartaledd cyflogau dynion a menywod), a'r ffigur canolrifol (yn nodi'r gwahaniaeth rhwng y canolbwyntiau yn ystod tâl dynion a menywod). Anogir cyflogwyr i gynhyrchu datganiad ysgrifenedig sy'n egluro'r data. Mae'r Rheoliadau bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi cymedr a chanolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau sy'n ymwneud â thal bonws. Nid yw'r Cyngor yn cynnig cynlluniau cymhelliant gwaith ar dasg neu bonws.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, i gyhoeddi'r Datganiad ysgrifenedig sy'n manylu'r data am y Blwch Cyflog rhwng y Rhywiau ar wefan y Cyngor a gwefan y Llywodraeth gan ddefnyddio gwasanaeth adrodd y Blwch Cyflog rhwng y Rhywiau.

## 9. DIWYGIO DIOGELU DATA - DIWEDDARIADAU I BOLISÏAU CRAIDD

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu'r fersiynau diwygiedig o bedair polisi llywodraethu/diogelu gwybodaeth craidd. Mae angen y diweddariadau i gwrdd â gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd, sy'n adlewyrchu arfer gorau'r diwydiant ac yn sail i ddarpariaethau diogelwch gwybodaeth y Cyngor.

Cynghorwyd y Cabinet y bydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn uniongyrchol berthnasol yn y DU o 25ain Mai 2018. Mae Mesur Diogelu Data yn mynd rhagddo drwy'r Senedd ar hyn o bryd, sy'n sicrhau nid yn unig cydymffurfiad y DU â gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ond hefyd Cyfarwyddeb newydd Gorfodi Cyfraith yr UE, agweddau ar y Ddeddf Economi Ddigidol ac ystyriaethau diogelwch cenedlaethol. Nododd y Cabinet ym mis Hydref 2017, bydd mwy o ofyniad am atebolrwydd a "Preifatrwydd drwy Ddylunio", mwy o hawliau ar gyfer pynciau data, gan gynnwys hawliau i wybod beth fydd y Cyngor yn ei wneud gyda'u data a chyflwyno adroddiadau torri gorfodol o fewn 72 awr. Bydd y gosb ariannol uchaf am dorri'r Ddeddf Diogelu Data a osodir ar hyn o bryd yn £500,000 yn cynyddu i gyfwerth â €20 miliwn neu 4% o drosiant blynyddol byd-eang o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Daw'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ar adeg heriol pan fo'n rhaid i wasanaethau leihau, sy'n gofyn am ffyrdd mwy effeithlon o weithio a chydweithio â sefydliadau eraill. Mae rheolaethau llywodraethu gwybodaeth effeithiol i leihau risg i ddefnyddwyr gwasanaeth ac i'r Cyngor yn hanfodol i'r broses hon. Mae hyn yn gyfle i wneud defnydd gwell o holl asedau gwybodaeth y Cyngor, nid yn unig y rhai sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol, i gynorthwyo'r broses o ddarparu gwasanaethau ac arbed costau, yn ogystal â mynd i'r afael â gofynion cynyddol ceisiadau a wneir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a deddfwriaeth hawliau gwybodaeth cysylltiedig

Diolchodd y Cabinet i'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol am ei gwaith caled a'i chefnogaeth gyda'r hyfforddiant diweddar a wnaed gyda staff ar draws yr Awdurdod.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, mabwysiadu'r fersiynau diwygiedig o bedair Polisïau Llywodraethu/Diogelu Gwybodaeth Craidd, yn cael eu cymeradwyo.

## 10. CRONFA DEDDF EGLWYSI CYMRU

Datganodd y cynghorwyr C. Gordon a Mrs B.A. Jones ddiddordebau rhagfarnol mewn perthynas â'r eitem hon gan eu bod yn Aelodau o Gronfa Deddf Eglwysi Cymru. Gadawsant yr ystafell gyfarfod ac ni chymerasant ran yn y ddadl.

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i'r argymhellion a gefnogir gan y Grantiau i Banel y Sector Gwirfoddol (y Panel) ar yr 17eg o Ionawr, 2018.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn derbyn dyraniad blynyddol o oddeutu £62 mil gan Gyngor Sir Fynwy ac oherwydd na chafodd y dyraniad hwn ei wario'n llawn yn y blynyddoedd blaenorol, rhagwelir y bydd gweddill o £263 mil yn cael ei drosglwyddo i flwyddyn ariannol 2018/19.

Mewn cyfarfodydd blaenorol o'r Panel, penderfynwyd y byddai'r meini prawf canlynol yn berthnasol ar gyfer CBS Caerffili wrth ystyried ceisiadau am gymorth gan Gronfa Deddf Eglwysi Cymru: -

(i) Rhoi grant am ddim mwy na £2,000 i brosiectau sy’n cael eu hariannu yn rhannol o £6,000 a throsodd.

(ii) Prosiectau llai na £6,000 yn cael cymorth grant hyd at draean o'r cyfanswm cost.

(iii) Yr holl sefydliadau sy'n derbyn grantiau'n cynhyrchu'r cofnodion ariannol angenrheidiol i ddangos y gwariant a gafwyd.

(iv) Ni chaniateir i unrhyw sefydliad ymgeisio mewn blynyddoedd olynol.

Yn ei gyfarfod ar 13eg Gorffennaf 2009, cytunodd y Panel y byddai Swyddogion, yn y dyfodol, yn cymeradwyo ceisiadau grant sy'n cwrdd â meini prawf Cronfa Deddf Eglwysi Cymru, gan ddefnyddio pwerau dirprwyedig. Byddai'r penderfyniadau fel hyn yn cael eu hadrodd i'r Panel er gwybodaeth, lle gallai Aelodau ofyn am ragor o wybodaeth os oes angen.

Mae'r Panel wedi mynegi pryderon am beth amser ynghylch y lefel uchel o falansau sy'n cael eu cario ymlaen ar gyfer Cronfa Deddf Eglwysi Cymru. O ganlyniad, yn ei gyfarfod anffurfiol ar 17eg Ionawr 2018 cyflwynwyd 5 opsiwn i'r Panel mewn perthynas â lefel y grantiau a ddyfarnir gan Gronfa Deddf Eglwysi Cymru. Roedd manylion amdanynt wedi'u nodi yn atodiad A (ynghlwm wrth yr adroddiad). Ar ôl ystyried yr opsiynau, dewis ddull y Panel oedd Dewis 4 - Ceisiadau am hyd at £5,000 i gael eu hariannu'n llawn gyda cheisiadau dros £5,000 i fod yn ddarostyngedig i gyfradd grant o 75% ar y swm sy'n fwy na £5,000 e.e. byddai cais sy'n gofyn am £8,000 a sy'n bodloni'r meini prawf yn derbyn £7,250 (£5,000 ynghyd â 75% o £3,000). Gyda chytundeb grant uchaf sy'n daladwy o £10,000.

Ystyriodd y Cabinet yr opsiynau a gyflwynwyd a gofynnodd am argymhelliad ychwanegol y byddai'r gronfa hon yn cael ei hysbysebu'n eang.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD cytuno â'r argymhellion yn 1.9.1 i 1.9.4 gydag argymhellion pellach

i gynnwys uchafswm grant sydd ar gael o £10,000 a bydd Swyddogion yn rhoi cyhoeddusrwydd eang i Gronfa Deddf Eglwysi Cymru a'r manteision sydd ar gael, ac am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog

(i) cefnogi argymhelliad y Grantiau i Banel y Sector Gwirfoddol y dylid gweithredu Opsiwn 4 o 1af Ebrill 2018, yn y ceisiadau hynny am hyd at £5,000 i gael eu hariannu'n llawn gyda cheisiadau uwchlaw £5,000 i fod yn ddarostyngedig i gyfradd grant o 75% ar y swm sy'n fwy na £5,000 e.e. byddai cais sy'n gofyn am £8,000 a sy'n bodloni'r meini prawf yn derbyn £7,250 (£5,000 ynghyd â 75% o £3,000). Gyda chytundeb grant uchaf sy'n daladwy o £10,000, yn cael ei gytuno;

(ii) dylid cyfyngu grantiau i fudiadau cymunedol a phrosiectau cymunedol yn y lle cyntaf ac y dylid adolygu'r sefyllfa hon ymhen 12 mis, yn cael eu cytuno;

(iii) dyfarniadau grant sy'n bodloni'r meini prawf y cytunwyd arnynt yn parhau i gael eu cymeradwyo gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol gan ddefnyddio pwerau dirprwyedig, yn cael eu nodi ;

(iv) Bydd swyddogion yn cynnal adolygiad o'r broses ymgeisio i hwyluso taliadau lle bynnag y bo modd, yn cael ei nodi;

(v) Bydd swyddogion yn rhoi cyhoeddusrwydd eang i Gronfa Deddf Eglwysi Cymru a'r manteision sydd ar gael.

## 11. MATER EITHRIEDIG

Ystyriodd yr Aelodau dystysgrif prawf budd y cyhoedd gan y Swyddog Priodol a daethant i'r casgliad bod ar gyfartaledd y budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad yn bwysicach na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y cyhoedd yn cael ei wahardd o weddill y cyfarfod oherwydd y byddai'n debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig iddynt fel y nodwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 12. GWAITH MWYNAU AC ADFER TOMENNI BEDWAS A GYNIGIWYD

Datganodd Cynghorwyr P. Marsden a L. Phipps ddiddordebau rhagfarnol mewn perthynas â'r eitem hon gan eu bod yn Aelodau'r Ward. Gadawsant y cyfarfod ac ni chymerasant ran yn y ddadl.

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer gwaith mwynau ac adfer tomenni Bedwas arfaethedig.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, yr argymhelliad a gynhwysir ym mharagraf 10.1.

Terfynwyd y cyfarfod am 3.35pm.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhalir ar 11eg Ebrill, 2018.

CADEIRYDD